**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 1984 - ADRAN 35C - HYSBYSIAD O AMRYWIAD**

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, drwy arfer ei bwerau o dan Adran 35C Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Rheoliad 25 o Reoliadau Gorchymyn Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 a'r holl bwerau galluogi eraill wedi penderfynu diwygio eu Gorchymyn Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd presennol (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Gorchymyn") a geir yn Atodlen 1 isod drwy amrywio costau parcio. Nodir y taliadau newydd isod yng Ngholofnau 1 a 2 o Ail Atodlen yr Hysbysiad hwn, gyda'r taliadau presennol yn cael eu dangos yng Ngholofn 3 Ail Atodlen yr Hysbysiad hwn:-

## ATODLEN 1

GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD)(GORFODI SIFIL) 2013 (fel y'i diwygiwyd).

## ATODLEN 2

| **COLOFN 1** | **COLOFN 2** | **COLOFN 3** |
|---|---|---|
| **Taliadau Arfaethedig Rhiw – O 08/08/2024 -08/08/2025** | **Taliadau Arfaethedig Rhiw – O 09/08/2025** | **Y Rhiw Taliadau Presennol** |
| Dydd Llun– Dydd Sadwrn 8am-6pm | Dydd Llun– Dydd Sadwrn 8am-6pm | Dydd Llun–Dydd Sadwrn 8am- 6pm |
| 0-1/2 awr 50c<br>½ awr – 1 awr £1.00<br>1-2 awr £1.50<br>2-3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00<br>**Am ddim ar ôl 4pm** | 0-1/2 awr 50c<br>½ awr – 1 awr £1.00<br>1-2 awr £1.50<br>2-3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00 | 3 awr cyntaf am ddim yna am amser dros 3 awr<br>0-1/2 awr 50c<br>½ awr – 1 awr £1.00<br>1-2 awr £1.50<br>2-3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00 |
| Deiliaid Bathodyn Glas - dim tâl<br>Beiciau modur - dim tâl<br>Dydd Sul am ddim | Deiliaid Bathodyn Glas - dim tâl<br>Beiciau modur - dim tâl<br>Dydd Sul am ddim | Deiliaid Bathodyn Glas - dim tâl<br>Beiciau modur - dim tâl<br>Dydd Sul am ddim |
| **Taliadau Arfaethedig John Street 08/08/2024 - 08/08/2025** | **Taliadau Arfaethedig John Street 09/08/2025** | **John Street Taliadau Presennol** |
| Bob Dydd<br>1 Ebrill i 30 Medi<br>Llun i Sad<br>1 Hydref i 31 Mawrth | Bob Dydd<br>1 Ebrill i 30 Medi<br>Llun i Sad<br>1 Hydref i 31 Mawrth | Bob Dydd<br>1 Ebrill i 30 Medi<br>Llun i Sad<br>1 Hydref i 31 Mawrth |
| 8am-6pm | 8am-6pm | 8am-6pm |
| 0-1/2 awr 50c<br>½ awr – 1 awr £1.00<br>1-2 awr £1.50<br>2-3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00<br>**Am ddim ar ôl 4pm** | 0-1/2 awr 50c<br>½ awr – 1 awr £1.00<br>1-2 awr £1.50<br>2-3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00 | Am ddim 12-3pm.<br>0-1/2 awr 50c<br>½ awr – 1 awr £1.00<br>1-2 awr £1.50<br>2-3 awr £2.00<br>3 i 4 awr £2.50<br>Dros 4 awr £6.00 |
| Deiliaid Bathodyn Glas - dim tâl<br>Beiciau modur - dim tâl | Deiliaid Bathodyn Glas - dim tâl<br>Beiciau modur - dim tâl | Deiliaid Bathodyn Glas - dim tâl<br>Beiciau modur - dim tâl |

Bydd y taliadau diwygiedig yng Ngholofn 1 yn dod i rym am gyfnod prawf o 08/08/2024 ac yn parhau mewn grym tan 08/08/2025. Yna bydd y taliadau a bennir yng Ngholofn 2 yn dod i rym o 09/08/2025 hyd nes y gwneir amrywiad pellach i'r taliadau.

Pe bai'r Cyngor yn penderfynu ymestyn y cyfnod prawf y tu hwnt i 08/08/2025 hysbysebir hysbysiad o amrywiad yn nodi'r taliadau perthnasol ac yn cadarnhau na fydd y taliadau y bwriedir eu cyflwyno ar 09/08/2025 yn berthnasol.

Mae'r holl gostau a thaliadau eraill yn aros yn ddigyfnewid.

Os oes angen yr hysbysiad hwn neu gopi o’r Gorchymyn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio’r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn:01656 643643. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy’n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Dyddiad:17/07/2024

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive’s Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

TRA001-1480